# DATGANIAD BIL BRYS
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Datganiad i gefnogi trin Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) fel Bil Brys** |
| **DYDDIAD** | **27 Chwefror 2018** |
| **GAN** | **Ysgrifennydd y Cabinet Dros Gyllid** |

Gwneir y datganiad hwn ochr yn ochr â chyflwyno cynnig i drin y Bil Cyfraith sy’n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru) fel Bil Brys, yn unol â Rheol Sefydlog 26.95A.

Mae Llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU yn gytûn bod angen deddfwriaeth i roi sicrwydd a phroses bontio esmwyth i ddinasyddion a busnesau ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Cytunwyd bod angen sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, bod yr un cyfreithiau a rheolau yn bodoli yn syth ar ôl ymadael â'r hyn oedd yn gymwys cyn ymadael, gydag addasiadau angenrheidiol.

Mae Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi dweud mai'r ateb gorau ar gyfer ymdrin â chanlyniadau deddfwriaethol ymadawiad y DU â'r UE fyddai Bil gan Senedd y DU, ar gyfer y DU gyfan, sy'n parchu'r setliad datganoli. Fodd bynnag, wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil i Ymadael â'r UE") ym mis Gorffennaf 2017 fel y cyfrwng deddfwriaethol i gyflawni'r amcan hwn, roedd yn amlwg nad dyna oedd ei ymagwedd.

Yn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar y diwrnod y cyflwynwyd y Bil i Ymadael â'r UE ac yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Cynulliad ym mis Medi, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei barn nad oedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn parchu'r setliad datganoli yn briodol ac nad oedd modd inni felly argymell i'r Cynulliad roi cydsyniad i'r Bil fel y'i drafftiwyd.

Yn dilyn hynny, fe wnaethom lunio cyfres o welliannau arfaethedig ar y cyd â Llywodraeth yr Alban a fyddai'n darparu'r newidiadau angenrheidiol i'r Bil i Ymadael â'r UE er mwyn i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban fedru ystyried argymell y dylid rhoi cydsyniad. Cafodd y gwelliannau hynny eu cyflwyno i'w trafod gan Dŷ'r Cyffredin yn ystod y cyfnod Pwyllgor, ond ni chytunwyd arnynt.

Ers hynny, rydym wedi ymdrechu'n gyson ac yn adeiladol dros fisoedd lawer i ddwyn perswâd ar Lywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau y cytunwyd arnynt i'r Bil i Ymadael â'r UE er mwyn i Lywodraeth Cymru fedru argymell i'r Cynulliad y dylid rhoi cydsyniad i'r Bil. Er bod y trafodaethau'n parhau, aflwyddiannus fu ein hymdrechion hyd yn hyn. Fe wnaeth Llywodraeth y DU addo cyflwyno gwelliannau yn ystod cyfnod adrodd Tŷ'r Cyffredin, ond nid chafodd unrhyw welliannau eu cyflwyno. Dan yr amgylchiadau hyn, nid oes dewis gennym ond paratoi'n gyfrifol am y posibilrwydd y bydd y Cynulliad yn

gwrthod rhoi cydsyniad i'r Bil i Ymadael â'r UE a cheisio ffordd arall o roi sicrwydd cyfreithiol i bobl a busnesau Cymru mewn perthynas â pharhau â chyfreithiau'r UE.

Felly, rydym wedi datblygu deddfwriaeth er mwyn i gyfraith yr UE barhau mewn meysydd datganoledig yng Nghymru – sef y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru). Bwriad y Bil hwn yw diogelu cyfraith yr UE sy'n cwmpasu pynciau wedi eu datganoli i Gymru, gyda'r addasiadau sydd eu hangen, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Rydym wedi gohirio cyhoeddi'r Bil hwn i roi pob cyfle posibl i ddod i gytundeb ar Fil diwygiedig ar gyfer y DU. Yn dilyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar 22 Chwefror, lle na chafwyd cytundeb ar y Bil i Ymadael â'r UE, rydym wedi cyrraedd pwynt lle nad yw'n bosibl oedi ymhellach wrth inni barhau mewn sefyllfa lle na allwn argymell yn rhesymol i'r Cynulliad roi cydsyniad i'r Bil i Ymadael â'r UE.

Mae'r broses hon wedi cael effaith ganlyniadol ar amseriad y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), ac mae'r cyfyngiad amser nawr yn golygu bod rhaid trin y Bil fel Bil Brys. Er mwyn gweithredu'r Bil, bydd angen i Weinidogion Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd camau deddfwriaethol sylweddol cyn y diwrnod ymadael (sef y diwrnod y bydd y DU yn ymadael yn swyddogol â'r Undeb Ewropeaidd). Ar ben hynny, bydd nifer yr addasiadau y bydd angen i Weinidogion Cymru eu gwneud mewn rheoliadau er mwyn sicrhau bod y cyfreithiau'n gweithredu'n gywir ar ôl ymadael yn cynyddu os bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd yn dod yn gyfraith. Mae hynny oherwydd bod y Bil yn darparu ar gyfer caniatáu i Weinidogion Cymru wneud addasiadau o'r fath i'r holl ddeddfwriaeth lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, yn hytrach nag i Weinidogion Llywodraeth y DU yn unig gael pwerau helaeth i wneud yr addasiadau hyn mewn meysydd datganoledig (fel fyddai'n digwydd o dan y Bil i Ymadael â'r UE). Gan mai cyfyngedig iawn yw'r amser sydd ar ôl rhwng nawr a'r diwrnod ymadael, byddai dilyn y gweithdrefnau arferol ar gyfer cyflwyno'r Bil yn gadael amser llawer rhy brin i'w weithredu'n gywir o'i ddeddfu. Rhaid i'r Bil fod yn ddarostyngedig i broses ddeddfwriaethol gyflym yn y Cynulliad er mwyn iddo gael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd mis Ebrill, fel bod cymaint o amser â phosibl yn cael ei roi i ymgymryd â'r dasg sylweddol hon ac i sicrhau parhad yn y rheolau a'r cyfreithiau yn y meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru cyn y diwrnod ymadael.

Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn seiliedig ar hynt y Bil i Ymadael â'r UE drwy Senedd y DU a'r angen i sicrhau bod y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn y Bil i Ymadael â'r UE. Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn ddelfrydol, ac y byddai'n llawer gwell pe bai'r holl ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i gamau craffu cadarn, fel sy'n digwydd fel arfer. Ond mae'r amgylchiadau eithriadol yn golygu nad yw hynny'n bosibl yn yr achos hwn.

Fel y nodwyd uchod, prif amcan y Bil yw sicrhau, yn gyffredinol, bod y rheolau a'r cyfreithiau sy'n berthnasol mewn meysydd datganoledig cyn ymadael yn parhau i fod yn berthnasol yn syth ar ôl ymadael, gan felly ddarparu sicrwydd i ddinasyddion, busnesau a sefydliadau eraill. Yr unig ffordd o wneud hyn yw os caiff y Bil ei drin fel Bil Brys. Byddai peidio â gwneud hynny yn arwain at gryn dipyn o ansicrwydd cyfreithiol a diffyg parhad i randdeiliaid (gan gynnwys busnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol) yn ogystal â phobl Cymru. Byddai costau ansicrwydd cyfreithiol a diffyg

cysondeb yn debyg o fod yn sylweddol iawn. Fodd bynnag, nid yw’r amcangyfrifon o'r gost yn hysbys ar hyn o bryd gan fod cymaint yn dibynnu ar ffurf terfynol y Bil i Ymadael â’r UE yn ogystal â’r telerau y bydd y DU yn eu negodi ar gyfer ymadael â’r UE.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater hwn yw diwygio'r Bil i Ymadael â'r UE er mwyn iddo fedru cael cydsyniad deddfwriaethol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Byddwn yn parhau i weithio i gyflawni hyn, gan gynnwys ymgynghori ag aelodau o Dŷ'r Arglwyddi. Mae llawer ohonynt yn cefnogi datganoli ac mae'n bosibl y byddant yn gallu gwneud gwelliannau i'r Bil eu hunain. Fodd bynnag, rhaid i ni baratoi dull gweithredu amgen rhag ofn na chaiff y Bil i Ymadael â'r UE ei ddiwygio, ac yn ein barn ni, dyma'r adeg olaf bosibl i gyflwyno'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd.